**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 7 Hydref 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd S Powderhill |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd J Barton
Y Cynghorydd J Brencher

**71 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

1) Fe wnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Williams ddatgan buddiant personol sy'n rhagfarnu ynglŷn â chais 21/0720/15, sef parhau â gwaith cloddio a gweithrediadau cysylltiedig heb gydymffurfio ag amodau 1 i 4 ac amodau 45 a 46 a osodwyd ar atodlen o amodau Adolygiadau o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP) Deddf yr Amgylchedd a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 24 Ebrill 2013 (cyf:08/1380/10), Chwarel Craig Yr Hesg, Heol Berw, Pontypridd.

   "Rwy'n Aelod o grŵp sy'n Gwrthwynebu Chwarel Hanson."

2) Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman fuddiant personol mewn perthynas â Chais 21/0635/10 Byngalo 3 gwely ar wahân gyda pharcio ar gyfer 3 char (Effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus PON/4/1). Fferm Bodwenarth, Llys yr Albion, Cilfynydd,CF37 4JA

   "Siaradodd yr ymgeisydd â mi yn dilyn y cyfarfod. Fe wnes i gynghori'r unigolyn i gyflwyno sylwadau i holl Aelodau'r Pwyllgor a'r Adran Gynllunio. Dydw i ddim wedi rhag-benderfynu ar y cais."

3) Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan fuddiant personol

mewn perthynas â'r Cais 20/1365/10. 3 Annedd ar wahân gyda 4 ystafell wely, pob un â lle parcio oddi ar y ffordd ar gyfer 3 char. (Ailgyflwyno cais 19/0449/10) (Derbyniwyd yr Adroddiad Ecoleg ar 5 Rhagfyr 2020. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig, lleihau maint ffin y safle ac ail-leoli anheddau arfaethedig ar 5 Ionawr 2021. Derbyniwyd cynllun diwygiedig, gan ychwanegu stribed bioamrywiaeth / ecoleg, 14 Ebrill 2021). TIR GER BRYNLLAN, FFORDD TREBANOG, TREBANOG, PORTH, CF39 9DU.

"Rwy'n adnabod yr ymgeisydd trwy fy rôl yn Gynghorydd Lleol gan ei fod yn byw yn fy ward."

**72 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**73 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**74 Cofnodion 26.08.21**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 26.08.21 yn rhai cywir.

**75 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**76 CAIS RHIF: 20/1365**

**3 annedd ar wahân gyda 4 ystafell wely, pob un â lle parcio oddi ar y ffordd ar gyfer 3 char. (Ailgyflwyno cais 19/0449/10) (Derbyniwyd yr Adroddiad Ecoleg ar 5 Rhagfyr 2020. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig, lleihau maint ffin y safle ac ail-leoli anheddau arfaethedig ar 5 Ionawr 2021. Derbyniwyd cynllun diwygiedig, gan ychwanegu stribed bioamrywiaeth / ecoleg, 14 Ebrill 2021). TIR GER BRYNLLAN, FFORDD TREBANOG, TREBANOG, PORTH, CF39 9DU**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

Mr C Wilks (Asiant)

Mr K Lawrence (Gwrthwynebydd)
Ms M Morris (Gwrthwynebydd)

Bu'r Asiant yn gweithredu'r hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd

Amlinellodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' gan drigolyn lleol yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar amwynder lleol a materion yn ymwneud â diogelwch ar y priffyrdd.

O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

(**Nodyn:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol rhag pleidleisio ar yr eitem hon.)

**77 CAIS RHIF: 21/0635**

**Byngalo 3 ystafell wely ar wahân gyda pharcio ar gyfer 3 char (Yn effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus PON/4/1). FFERM BODWENARTH, LLYS YR ALBION, CILFYNYDD, PONTYPRIDD, CF37 4JA**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Ms A Lloyd (Ymgeisydd)
- Gwrthwynebydd 1 (Gwrthwynebydd)

Rhoddwyd y cyfle i'r Ymgeisydd ymateb i'r Gwrthwynebydd ond gwrthododd wneud hynny.

Yn unol â chofnod 53 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 2 Medi 2021, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymweliad â'r safle a gafodd ei gynnal ar 21 Medi 2021 mewn perthynas â'r cais a gafodd ei argymell i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

Nodwyd bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol yn bresennol yn yr adroddiad, ond nid oedd hynny'n wir.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**(Nodwch**: Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen y cyfarfod, ac ni ddychwelodd.)

**78 CAIS RHIF: 21/0431**

**Amrywio amod 2 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo) i ofyn am ganiatâd ar gyfer lleoliad adeilad, uchder adeilad, cwrt blaen a chladin allanol diwygiedig. (Cais gwreiddiol 19/0791/10). (Cynlluniau Diwygiedig wedi'u derbyn 02/08/21) UNED STORIO ODDI AR HEOL Y BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2AG**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr J Pritchard (Ymgeisydd)
- Mr K Rees (Gwrthwynebydd)

Rhoddwyd y cyfle i'r Ymgeisydd ymateb i'r Gwrthwynebydd ond gwrthododd wneud hynny.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Barton, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Amlinellodd Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan drigolyn lleol a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Yn unol â chofnod 54 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 2 Medi 2021, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymweliad â'r safle a gafodd ei gynnal ar 21 Medi mewn perthynas â'r cais a gafodd ei argymell i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

Yn dilyn trafodaeth, roedd yr Aelodau o'r farn y dylid gwrthod y cais uchod yn groes i argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, gan eu bod o'r farn bod yr adeilad yn strwythur diwydiannol ac yn un sy'n anghydnaws â natur yr ardal, sy'n ardal breswyl. Teimlai'r aelodau hefyd y byddai cynyddu uchder yr adeilad a'i symud yn cael effaith andwyol ar amwynder lleol a gweledol, ac roedden nhw'n pryderu y byddai mynediad i'r briffordd o safon is na'r disgwyl. Roedd pryderon hefyd o ran defnyddio'r datblygiad at ddibenion busnes a masnachu yn y dyfodol.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**79 CAIS RHIF: 20/0233**

**Bwriad i addasu ac ychwanegu estyniad 3 llawr i'r adeilad swyddfa presennol i ddarparu 10 uned breswyl ac 1 uned fasnachol (siop**

**goffi/caffi). (Derbyniwyd adroddiad arolwg ystlumod ar 02/09/2021) YR HEN ADEILAD CYFRADDAU, 42/43 STRYD FAWR, ABERDÂR, CF44 7AA**

Amlinellodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys dau lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol lleol S. Bradwick a M. Forey i gefnogi'r cais.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr hyn a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amod ychwanegol sy'n gofyn am ddarparu storfa finiau mewn lleoliad i'w gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol.

**80 CAIS RHIF: 21/0809**

**Trosi llofft dormer cefn arfaethedig, cyntedd blaen ac estyniad i'r gegin. 38 CLOS MYDDLYN, BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2JS**

Cyflwynodd Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 2 Medi 2020, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio (Cofnod 55).

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl o ran cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, a hynny am y rheswm canlynol:

> Oherwydd eu maint, eu màs cyffredinol a'u lleoliad, byddai'r estyniadau arfaethedig yn anghydnaws yn weledol ac yn amharu ar gymdogion, a byddant yn arwain at orddatblygu'r safle ac yn edrych dros eiddo cyfagos yn uniongyrchol mewn modd sy'n annerbyniol. Mae hyn yn groes i Bolisïau AW5 ac AW6 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**81 CAIS RHIF: 21/0058**

**Tŷ ar wahân gyda garej ddwbl integredig. HEN SAFLE GLEN TRANSPORT, HEOL PENYCOEDCAE, PENYCOEDCAE, PONTYPRIDD**

Cyflwynodd Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 2 Medi 2021, pan gymeradwyodd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio (Cofnod 57).

Adroddodd Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi ar lafar am gywiriad i amod 6 yr adroddiad ar dudalen 84, i ddileu'r gair 'not' fel ei fod yn darllen fel a ganlyn:

> 6. No dwelling, hereby permitted, shall be occupied until the measures approved in the scheme (referred to in Condition 5) have been implemented and a suitable validation report of the proposed scheme has been submitted to and approved in writing by the Local Planning Authority.
> Rheswm: Er budd iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol yn unol â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

Trafododd yr Aelodau yr adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl o ran cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio gan fod yr Aelodau o'r farn fod y safle'n dderbyniol o ran yr effaith bosibl ar gymeriad a golwg yr ardal, amwynder preswylwyr cyfagos a diogelwch ar y briffordd, yn amodol ar y canlynol:

1. Bydd y datblygiad sy'n cael ei ganiatáu drwy hyn yn dechrau cyn diwedd pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd yma.
   Rheswm: Cydymffurfio ag Adrannau 91 a 93 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2. Bydd y datblygiad sy'n cael ei ganiatáu drwy hyn yn cael ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau wedi eu cymeradwyo:
   •Rhif y Darlun 2013 PL-01 Cynllun y lleoliad
   •Rhif y Darlun 2013 PL-02 Cynllun safle arfaethedig
   •Rhif y Darlun 2013 PL-03 A Cynlluniau llawr gwaelod a llawr cyntaf
   •Rhif y Darlun 2013 PL-04 Cynllun to arfaethedig
   •Rhif y Darlun 2013 PL-05 A Drychiadau arfaethedig i'r gorllewin a'r de
   •Rhif y Darlun 2013 PL-06 Drychiadau arfaethedig i'r dwyrain a'r gogledd, a'r dogfennau a ddaeth i law'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar 18/01/21, 08/02/21 a 15/02/21, oni bai eu bod nhw wedi eu cymeradwyo a'u disodli gan fanylion sy'n ofynnol yn unol ag unrhyw amod arall wedi ei atodi i'r gymeradwyaeth hon. Rheswm: Sicrhau cydymffurfio â'r cynlluniau a'r dogfennau wedi eu cymeradwyo a diffinio ffiniau'r caniatâd yn glir.

3. Bydd y dreif arfaethedig ar ddarlun rhif "2013.PL-02" yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau parhaus, ac ynghyd â'r garej integredig arfaethedig, bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio cerbydau yn unig.
   Rheswm: Sicrhau bod cerbydau yn cael eu parcio oddi ar y briffordd, er budd diogelwch ar y ffordd.

4. Ni chaiff unrhyw ddatblygu ddigwydd, gan gynnwys gwaith i glirio'r safle, nes bod Datganiad o Ddull Adeiladu yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, er mwyn darparu ar gyfer; a) mynediad i'r safle i'r holl draffig adeiladu, b) mannau pacio ar gyfer gweithwyr y safle ac ymwelwyr, c) mesurau rheoli traffig cerbydau a cherddwyr, ch) llwytho a dadlwytho offer a deunyddiau, d) storio offer a deunyddiau i'w defnyddio wrth adeiladu'r datblygiad, dd) cyfleuster glanhau olwynion, e) gorchuddio lorïau sy'n gadael y safle.
   Rheswm: Rhaid cadw at y Datganiad Dull Adeiladu cymeradwy trwy gydol y broses ddatblygu oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

5. Ni chaiff y datblygiad a ganiateir drwy hyn ddechrau nes bod cynllun i ymdrin â deunydd halogedig ar y safle wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo yn ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys yr holl fesurau a ganlyn oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol: 1. Astudiaeth ddesg i nodi a gwerthuso holl ffynonellau halogi posibl sy'n berthnasol i'r safle a'u heffaith. Dylai'r astudiaeth ddesg gynnwys model cysyniadol o'r safle 2. Rhaid cynnal ymchwiliad safle er mwyn nodi'n llawn ac yn effeithiol natur a hyd a lled unrhyw halogiad a'i oblygiadau. Ni fydd yr ymchwiliad safle'n dechrau nes y bydd astudiaeth ddesg wedi'i chytuno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. 3. Datganiad ysgrifenedig o'r dull ar gyfer adfer y safle o ran unrhyw ddeunydd halogedig sy'n effeithio arno.
   Rheswm: Er budd iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol yn unol â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

6. Ni chaiff unrhyw eiddo a ganiateir drwy hyn ei feddiannu nes bod y mesurau sydd wedi'u cymeradwyo yn y cynllun (gweler amod 5) wedi'u rhoi ar waith a bod adroddiad dilysu priodol ar gyfer y cynllun arfaethedig wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
   Rheswm: Er budd iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol yn unol â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

7. Os caiff unrhyw halogiad ei ddarganfod yn ystod y gwaith datblygu nad oedd wedi'i ei nodi'n flaenorol, a'i fod yn deillio o ffynhonnell wahanol a/neu'n fath gwahanol i'r rheiny sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion halogiad, yna bydd y gwaith yn dod i ben a bydd cynigion halogiad diwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni fydd y datblygiad yn ail-ddechrau nes bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cytuno'n ysgrifenedig ar y cynigion ychwanegol.
   Rheswm: Er budd iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol yn unol â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

8. Rhaid i unrhyw uwchbridd [naturiol neu wedi'i weithgynhyrchu], neu isbridd, i'w fewnforio gael ei asesu gan berson cymwys ar gyfer halogion cemegol neu halogion eraill posibl yn unol â chynllun ymchwilio a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ymlaen llaw, cyn i'r pridd gael ei fewnforio. Yn amodol ar gymeradwyo'r cynllun archwilio, bydd samplu'r deunydd sy'n cael ei dderbyn ar safle'r datblygiad yn digwydd i gadarnhau fod y pridd wedi'i fewnforio'n rhydd o halogion. Cynhelir y samplu gan berson cymwys yn unol â chynllun ac amserlen i'w cytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dim ond deunydd sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod

Cynllunio Lleol gaiff ei fewnforio
Rheswm: Er budd iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol yn unol â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

9. Ni fydd y gwaith adeiladu yn dechrau nes bod manylion/samplau o'r deunyddiau adeiladu i'w defnyddio wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'u cymeradwyo mewn ysgrifen, a bydd yr holl ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio yn cydymffurfio â'r samplau wedi eu cymeradwyo.
   Rheswm: Sicrhau bydd golwg allanol y datblygiad arfaethedig yn gweddu i gymeriad yr ardal a'r adeiladau cyfagos er mwyn amwynder gweledol yn unol â Pholisïau AW5 ac AW6, Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

10. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod cynllun sy'n nodi'r safleoedd, dyluniad, deunyddiau a'r math o driniaeth ffiniau sydd i'w godi yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cwblhau'r driniaeth ffiniau cyn meddiannu'r adeilad. Bydd y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion sydd wedi'u cymeradwyo.
    Rheswm: Sicrhau bydd y datblygiad newydd yn ddeniadol yn weledol o ran amwynder yn unol â Pholisïau AW5 a AW6, Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**82 CAIS RHIF: 21/0335**

**Newid defnydd siop wag i fflat hunangynhwysol, ehangu ffenestr 'dormer' gefn a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 11/05/2021) 90 STRYD Y FRENHINES, TREFFOREST, PONTYPRIDD, CF37 1RN**

Cyflwynodd Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 2 Medi 2021, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio (Cofnod 58).

Trafododd yr Aelodau adroddiad pellach y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio, a oedd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl o ran gwrthod cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, a hynny am y rheswm canlynol:

1. Byddai'r cynllun arfaethedig yn arwain at ragor o barcio afreolus, a fydd yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch ar y priffyrdd sydd o amgylch y safle. Byddai'r datblygiad felly yn groes i Bolisïau AW5 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf
2. 2. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at golli amwynder ac yn cael effaith ormesol ar eiddo cyfagos, yn groes i Bolisi AW 5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.
3. 3. Byddai'r cynnig yn arwain at orddatblygu'r safle, er anfantais i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal ac yn groes i Bolisïau AW 5 ac

AW 6 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**83 CAIS RHIF: 21/0720**

**Parhau â gwaith cloddio a gweithrediadau cysylltiedig heb gydymffurfio ag amodau 1 i 4 ac amodau 45 a 46 a osodwyd ar atodlen o amodau Adolygiadau o Hen Ganiatadau Mwynau (ROMP) Deddf yr Amgylchedd a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 24 Ebrill 2013 cyf: 08/1380/10 CHWAREL CRAIG YR HESG, HEOL BERW, PONTYPRIDD, CF37 3BG**

(**Noder:** Gan iddo eisoes ddatgan buddiant personol a niweidiol ynglŷn â'r cais uchod (Cofnod rhif 71), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams y cyfarfod ar y pwynt yma.)

Amlinellodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' gan drigolyn lleol yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 26 Awst 2021, pan wrthododd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio (Cofnod 45).

Trafododd yr Aelodau adroddiad pellach y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio, a oedd yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl o ran gwrthod cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, a hynny am y rheswm canlynol:

1. Mae'r cyfnod ychwanegol o 6 blynedd sydd wedi'i gynnig ar gyfer cynnal gwaith yn y chwarel yn ymestyn cyfnod y gweithrediadau mwynau o fewn 200 metr i ddatblygiad sensitif yng Nglyn-coch yn annerbyniol. Mae Glyn-coch yn gymuned ddifreintiedig, a chydnabyddir bod cymunedau o'r fath yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan broblemau iechyd. Mae parhau â gwaith chwarela o fewn 200 metr i'r gymuned yma yn ymestyn effeithiau chwarela (yn enwedig o ran sŵn, llwch ac ansawdd aer) er anfantais i amwynder a lles preswylwyr yn groes i nod llesiant Cymru iachach fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dydy'r angen am y mwyn ddim yn gorbwyso'r effeithiau ar amwynder a lles y preswylwyr.

**84 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 06/09/2021 – 24/09/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**